Gwybodaeth i ferched sydd wedi cael canlyniad positif i brawf am siffilis

Mae'r daflen yma i ferched sydd wedi cael gwybod, ar ôl cael prawf sgrinio cyn-geni, fod posibilrwydd eu bod wedi cael haint siffilis yn y gorffennol neu fod haint arnyn nhw'n awr.

Mae'r daflen yn cynnig gwybodaeth am:

- siffilis a bod yn feichiog;
- sut mae bod â siffilis yn gallu effeithio ar eich babi;
- a'r driniaeth sydd ar gael tra'r ydych chi'n feichiog.

Beth yw siffilis?

Haint facteriol ddifrifol yw siffilis. Pan wnaethoch chi ddal siffilis, efallai mai dim ond am gyfnod byr ar y dechrau yr oeddech chi'n teimlo'n wael, ac efallai nad oeddech chi'n gwybod eich bod wedi dal y clefyd. Ond os nad yw siffilis yn cael ei drin, gall achosi problemau difrifol yn hwyr yn eich oes, yn cynnwys niwed i'r ymennydd a phroblemau ar y galon.

Beth mae canlyniad fy mhrawf gwaed yn golygu?

Nid yw canlyniad positif i brawf gwaed yn golygu'n bendant fod siffilis arnoch chi. Nid yw canlyniadau'r prawf sgrinio am siffilis yn hawdd eu deall bob tro. Mae angen i arbenigwr edrych ar y canlyniadau a gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd a heintiau blaenorol. Bydd canlyniadau profion sgrinio'n positif weithiau am eich bod wedi cael siffilis yn y gorffennol ac wedi cael triniaeth ar ei gyfer. Ac mae clefydon eraill sy'n llai difrifol yn gallu rhoi canlyniad positif i'r prawf.

Mae'n bosib trin heintiau siffilis yn llwyddiannus gyda gwrthfiotigau.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os yw canlyniad y prawf sgrinio'n positif, byddwch chi'n cael apwyntiad i weld meddyg arbenigol ar frys. I'w helpu i wneud diagnosis, bydd y meddyg yn gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi ac am unrhyw heintiau blaenorol. Os yw'r meddyg yn credu bod haint siffilis arnoch chi, bydd yn penderfynu hefyd ar y ffordd orau o'i thrin. Bydd y meddyg yn gallu ateb eich cwestiynau a chynnig cefnogaeth i chi.

Os oes haint siffilis arnoch chi, mae'n bwysig iawn i'r haint gael ei thrin yn effeithiol er mwyn lleihau'r posibilrwydd o weld yr haint yn trosglwyddo i'ch babi tra'r ydych chi'n feichiog. Os bydd yr haint yn trosglwyddo i'ch babi, gallai achosi erthyliad naturiol neu annormaleddau, neu gallai'r babi gael ei eni'n farw.

Bydd eich bydwraig yn gallu'ch helpu i gynllunio'ch gofal a thrafod unrhyw ddewisiadau sydd i'w gwneud.

Information for Women

© Public Health Wales

Sut wnes i ddal siffilis?

Fe allwch chi ddal siffilis drwy weithgarwch rhywiol diamddiffyn (heb ddefnoddio condom), yn cynnwys rhyw geneuol (*oral*), gyda rhywun sydd wedi'i heintio.

Pa driniaeth sydd ar gael?

Os oes siffilis arnoch chi, bydd y meddyg arbenigol yn esbonio sut y bydd yn effeithio arnoch chi. Byddwch chi'n cael cyffuriau gwrthfiotig. Ar ôl cymryd y cyffuriau, bydd angen i chi gael profion gwaed i wirio a yw'r haint wedi clirio'n gyfan gwbl.

Sut bydd bod â siffilis yn effeithio ar fy meichiogrwydd?

Os byddwch chi'n cael triniaeth, ni fydd bod â siffilis yn effeithio ar weddill eich beichiogrwydd. Ni fydd yr haint yn golygu y bydd rhaid i chi gael toriad Cesaraidd, ac fe allwch chi fwydo o'r fron.

Sut bydd bod â siffilis yn effeithio ar fy mabi?

Os byddwch chi'n dechrau triniaeth gwrthfiotig cyn gynted â phosib yn eich beichiogrwydd, mae'n llai tebygol y bydd eich babi'n dal siffilis. Os daw eich haint i'r amlwg yn hwyr yn eich beichiogrwydd, fe allai'r babi gael ei effeithio. Bydd paediatregydd yn archwilio'ch babi'n fuan ar ôl y geni. Bydd angen nifer o brofion gwaed ar y babi i weld a oes siffilis arno ac a oes angen iddo gael cyffuriau gwrthfiotig.

Os na fyddwch chi'n cwblhau'r driniaeth, mae'n debygol iawn y byddwch chi'n trosglwyddo'r haint siffilis i'ch babi yn ystod eich beichiogrwydd. Gallai hynny beryglu'r babi'n ddrwg. Fe allai farw cyn y geni neu fod â nifer o broblemau difrifol ar ei iechyd.

Fydd angen i fy mabi gael cyffuriau gwrthfiotig?

Efallai y bydd angen gwrthfiotigau ar eich babi ar ôl y geni. Os oedd hi'n hwyr yn eich beichiogrwydd pan gawsoch chi wrthfiotigau, mae posibilrwydd o hyd fod eich babi wedi cael ei heintio. Mae'r cyffuriau gwrthfiotig yn cael eu rhoi drwy bigiad fel arfer.

Wrth bwy y dylwn i ddweud bod siffilis arnaf i?

Mae'n bwysig i chi ddweud wrth eich partneriaid rhywiol presennol, a rhai blaenorol. Dylen nhw ystyried cael profion am siffilis er mwyn iddyn nhw gael triniaeth os oes angen. Os ydych chi mewn perthynas ar hyn o bryd, gallwch chi holi'r meddyg arbenigol sut mae esbonio canlyniad eich prawf siffilis i'ch partner. Gallwch chi ddweud wrth yr arbenigwr hefyd p'un a ydych chi'n fodlon i'ch meddyg teulu gael gwybod bod siffilis arnoch chi neu beidio. Unwaith y bydd siffilis wedi cael ei drin yn llwyddiannus, ni fydd yn dod yn ôl heb i chi ei ddal eto.

Information for Women

© Public Health Wales

Cyfrinachedd

Er mwyn i chi a'ch babi gael y gofal gorau, bydd angen i ni gynnwys arbenigwyr eraill yn eich gofal. Oherwydd hyn, bydd eich bydwraig yn gofyn a ydych chi'n fodlon i'r arbenigwyr eraill gael gwybodaeth amdanoch chi cyn iddyn nhw gyfrannu at eich gofal.

Ble gallaf i gael mwy o wybodaeth?

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am siffilis:

- gan fydwraig yr ysbyty sy'n arbenigo ar sgrinio cyn-geni, neu gan eich meddyg yn yr ysbyty (yr obstetregydd);
- o glinig iechyd rhywiol agosaf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Cyfeiriwch at y rhestr dan GUM (*genito-urinary medicine*) yn y llyfr ffôn neu ffoniwch eich ysbyty lleol a gofyn am y clinig GUM;
- drwy linell gymorth 24-awr Galw Iechyd Cymru – 0845 46 47;
- o wefan Galw Iechyd Cymru – www.nhsdirect.wales.nhs.uk/?locale=cy;
- o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru – www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/44202;
- ac o wefan NHS Choices – www.nhs.uk/Pages/HomePage.aspx.

Cymraeg Clir®

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2009. Mae pob hawl wedi'i chadw. Chewch chi ddim atgynhyrchu'r daflen gyfan neu ran ohoni heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint.
www.antenatalscreening.org
Gorfennaf 2010
SP Rhifyn 2

Information for Women

© Public Health Wales